CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**04.09.25**
**6:30 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*

***Cyfarfod Hybrid - ZOOM***

***Hwb LlanNi***

***COFNODION***

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** RJ (Cadeirydd) EY; AR; DP;JOJ;TAJ; JAJ; EO; DAW;GW;LLMH<br><br>**Ymddiheuriadau:** IW;DP<br><br>**Mynychu:** Cyng Jackie Lewis; SWR<br><br>Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod gan nodi yr ymddiheuriadau uchod. |
| | **Cyfarfod Blynyddol**<br><br>Cafwyd adroddiad gynhwysfawr gan y Cadeirydd am weithgaredd y Cyngor yn ystod ei gyfnod yn y gadair – Medi 2024- Awst 2025. Cytunwyd i ychwanegu cyfeiriad at y gefnogaeth, ymarferol a chyllidol, gan CC Llan i sefyldu Hwb LlanNi a chefnogi sefydliadau eraill o fewn y gymuned. Cytunwyd i fabwysiadu'r cynnwys yn Adroddiad Blynyddol C C Llan a'i harddangos ar y dudalen we a'r hysbysfwrdd.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd am gefnogaeth yr aelodau ac yn arbennig i'r Clerc am y cydweithio rhwydd. Croesawyd Cyng EY i'r Cadair gyda Cyng JAJ yn Is-Gadeirydd. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br><br>Datganodd GW/DAW ddiddordeb yn  Eitem 5 Cyllid. |
| **3** | **Cofnodion 05.06.25**<br>Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 17.07.25 fel rhai cywir **(**DAW/EO)<br><br>**Materion yn Codi**<br><br>**Rhandiroedd** – cadarnhaodd y Clerc bod yr holl arian gan y Clwb Rhandiroedd bellach wedi ei drosglwyddo i'r cyfrif cadw.  Mae'r swm o £2200 wedi ei glustnodi ar gyfer cynnal a chadw'r Rhandiroedd. Cytunwyd i gynnal Is-Bwyllgor Safleoedd Medi 18 i drafod y camau nesaf.<br><br>**Materion Priffyrdd –** nid oedd diweddariad i'r Cynllun Gweithredu Priffyrdd i law ond cytunwyd i ychwanegu<br>• Cyflwr y ffordd ger troadau Coedana o ganlyniad i'r gwres diweddar (creu 'bleeding')<br>• Trefnu cyfarfod safle gyda Alan Jones i drafod parcio<br>• Pwysleisio am bryder gor-yrru. Diolchwyd i JL am y diweddariad am Operation Snap – ymgyrch yr Heddlu.<br><br>Clerc i rannu, gyda Cyng JL, holll waith papur hanesyddol fu i sicrhau clirio parcio anghyfreithlon ar safle'r Stesion<br><br>**Cloc y Pentref** – gwaith RPO Williams wedi ei gwblhau.  CSYM i gysylltu a thrydanwr CC Llan i orffen y cysylltu.  Clerc i Holi Smiths of Derby am ganiad y gloch a'r amseru.<br><br>**Diffibrilyddion -** Clerc wedi cysylltu â swyddog perthnasol Tomos Hughes sawl gwaith – parhau i drefnu cyfarfod.<br><br>**Trwsio pellach wal Maes parcio Jeriwsalem -** Clerc i drefnu ymweliad safle pellach gyda Meirion Greives a GW/TAJ i geisio pris i orffen y gwaith diogelu.<br><br>**Meddygfa Glan Menai –** cyfeiriodd y Clerc at ebost gylchredwyd eisoes yn nodi bod bwriad i ddychwelyd i'r oriau gwreiddiol.  Cafwyd trafodaeth am y sefyllfa a bod nifer yn cwyno am y gwasanaeth. Pwysleirwyd ar gyfleu unrhyw broblem trwy'r sianelau ffurfiol er mwyn dod a materion i sylw y Practis ac er mwyn dadrusiad fel bo'r angen.<br>Cytunwyd i'r Clerc anfon ebost at y Rheolwr practis yn diolch am y gwasanaeth a'r cyswllt er mwyn rannu gwybodaeth.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 04.09.25 |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG** Ffôn:  01248  470383

| | |
|---|---|
| 4 | **Materion trwy'r Gadair**<br>• **Diweddariad Declan Pritchard** – cydnabuwyd derbyn ebost Mr Pritchard yn cadw CC Llan yn gyfredol o'r datblygiadau.<br>• **Hyfforddiant Cod Ymddygiad** – cytunwyd i'r Clerc holi am sesiwn yn yr Hwb (rhithiol posib) i'r holl aelodau gan fod hwn yn hyfforddiant statudol.<br>• **Noddi Eisteddfod yr Urdd 2026** – nododd y Clerc, gyda ymddiheuriad, nad oedd wedi ymrwymo CC Llan i CAMU sef proses o dalu £20 y mis am 20 mis i gefnogi'r Eisteddfod 2026. Cytunwyd i noddi cystadleuaeth arall am £200 – awgrymwyd unrhyw yn gysylltiedig a chlocsio/stepio. Bydd swm noddi CC Llan o £400 yn cael ei nodi dan Apel Llannerchymedd.<br>• **Cynghrair Talybolion –** nodwyd bod arian ar gael hyd at £5K ar gyfer materion cymunedol yn ardal Talybolion. Cytunwyd i holi am arwyddion arafu i'r pentref.<br>• **Cytundeb Amddiffyn Tan-** trafodwyd cytundeb adolygu cyfarpar tan yn ein safloedd. Roedd pris i law gan gwmni newyd Paragon Fire. Cytunwyd i holi cwmniau eraill a thrafod ymhellach.<br>• **Arian Balchder Bro** – grantiau ar gael ar gyfer datblygiadau/gweithgaredd cymunedol. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i holi am yr isod:-<br>❖ Arwyddion fflachio arafu ar Lon Amlwch<br>❖ Potiau blodau o dan yr Arwyddion Pentref<br>❖ Plannu coed yng Nghae Gofeb<br>❖ Gweithgaredd Nadolig 2026 – cyngerdd/goleuo'r goeden/hwyl i'r plant<br>Clerc i weithredu cyn y dyddiad cau 30 Medi 2025 |
| 5 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau ers 17.07.25**<br>• Cyflog Clerc – Gorffennaf/Awst = £676.09 yn cynnwys 3 x ZOOM X 2<br>• Nwy Prydain Trydan Clwb Bowlio £21.37<br>• Nwy Prydain trydan Uned 1 £13.70<br>• Nwy Prydain trydan Goeden Dolig £14.18<br>• Nwy Prydain trydan Uned 2 £14.71<br>• Nwy Prydain trydan CPD £53.35<br>• Playsafety – arolwg ROSPA - £480<br>• JRB – bagiau baw ci - £77.88 |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | • HJT – gwaith trydan yn y Caffi ar gyfarpar – 156.67<br>• HJT – gosod system CCTV yn y stesion - £2570.35<br>• Gareth Parry – glanhau a phanetio y polion o gwmaps y Caffi yn y Stesion £560<br>• Meirion Grieves – clirio y wal ger maes parcio Jeriwsalm - £280<br>• HMRC – 2 daliad PAYE – chwarter olaf 24/25 a chwater cyntaf 25/26 - £495.20 X 2<br>• Clive Harper – ad-daliad i Rose Heating am drwshio arbenigol 'air poressure switch' i'r system goginio yn y Caffi - £317.04<br>• Clive Harper – ad-daliad Anglesey Commercial Catering – trwshio cyfarpar yn y Caffi, ffi galw allan yn unig - £70.00<br><br>**Biliau cyfredol**<br>IG Jones – gwasanaeth PAYE blynyddol - £282.00<br>Williams Bros – trwsio swing yn Glan Menai – cost coed a llafur - £484.32<br><br>**Cyfrif Cyfredol**: £9925.37<br>**Cyfrif Cadw:** £41,501.62<br><br>**Cyfrifon Blynyddol 2024-25 -** cyfrifon yn nwylo Archwilio Cymru o fewn y terfyn amser, disgwyl dyfarniad. |
| 6 | **Materion Cynllunio** - hyfforddiant Cymorth Cynllunio Cymru – EY/AR a SWR i fynychu sesiwn 17.9.25 yn yr HWB.<br><br>Canlyniad gais gan Wylfa Green i ddatblygu Alaw Mon wedi ei gymeradwyo gan Llywodraeth Cymru – cylchredwyd y manylion eisoes.<br>Cafwyd trafodaeth eang yn nodi siom nad oedd llais pobol Ynys Môn na'r CSYM yn cael ei glywed ganddynt. Cyferiwyd at gyfarfod cyhoeddus yn Amlwch i drafod camau pellach Nos Iau 11 Medi – DAW yn nodi ei fod am fynychu. |
| 7. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** adroddodd JL ar ddatblygiadau'r Cynllun Datblygu Lleol. Nododd bod llawer o waith yn mynd rhagddo a bydd strategaeth ddewisiol wedi ei chwblhau erbyn Dolig '25 a bydd cyfnod o ymgynghori i ddilyn. Nododd bod oes o 10 mlynedd i'r ddogfen a bod mwy o lais lleol i'w groesawu. |
| 8 | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel –** dim diweddariad gan CSYM ar y broses o werthu y llain a'r ddau gompowd. Asiant yn dal i holi.<br><br>**Safle'r Stesion** – dim i law<br><br>**Lawnt Fowlio –**. Pris gan Iwan Roberts i law – cyfanswm o £14K wedi ei rannu i glirio coed; clirio ffensus; gosod ffens newydd. Clerc i holi |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | CSYM am arweiniad gyda cyfrifoldeb terfyn a chymorth ariannol? Trafod eto ym mis Hydref. Cytunwyd i drefnu hysbys i holi am ddiddordeb mewn rhedeg y Clwb.<br><br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br><br>**Mynwentydd** – nododd bydd y giat newydd yn cael ei gosod o fewn mis.<br><br>**Cae Gofeb –** dim i law<br><br>**Rhandiroedd – t**rafodwyd eisoes. |
| **9.** | **Gohebiaeth**<br><br>Nodwyd cynnwys yr ohebiaeth a gylchredwyd trwy ebost ers cyfarfod mis Mehefin. |
| *Daeth y cyfarfod i ben am 8:45pm* | |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383